**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 04-01(p1)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 14 Mawrth 2001 |
| **Amser:** | 2.00pm - 5.05pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## ADRODDIAD Y GWEINIDOG DROS FATERION GWLEDIG

### Clwy'r Traed a'r Genau

1. Am 16.00 ar 9 Mawrth, saith o achosion a gadarnhawyd yng Nghymru: pedwar yn Sir Fôn a thri ym Mhowys. Defaid, gwartheg, moch a geifr yw'r da-byw ar y ffermydd sydd naill ai wedi dal y clefyd neu sydd wedi bod yn agos at anifeiliaid sydd â'r clwy. Mae'r holl dda-byw a oedd ynghlwm wrth yr achosion cynnar a gadarnhawyd wedi eu difa a'u llosgi; ac mae'r glanhau a'r diheintio angenrheidiol ar y ffermydd hyn naill ai wedi gorffen neu ar fin cychwyn. Mae'r gwaith difa wedi cychwyn neu ar fin cychwyn ar y ffermydd eraill a gadarnhawyd

2. Am 16:00 ar 9 Mawrth, cyfanswm yr anifeiliaid a gafodd eu difa yng Nghymru o ganlyniad i Glwy'r traed a'r genau oedd 4660. Yr oedd hyn yn cynnwys 4520 o ddefaid; 115 o wartheg; 21 o foch; a 4 gafr.

3. Mae cyfanswm o 14 fferm yn cael eu harchwilio o hyd. Mae 10 ohonynt yn Sir Fôn, ger y Gaerwen a'r gweddill ym Mhowys (2), ac un yr un yng Nghasnewydd a Sir Drefaldwyn. O ystyried bod y sefyllfa'n newid o ddydd i ddydd, byddaf yn hysbysu'r pwyllgor ar lafar o unrhyw ddatblygiadau pellach.

### Taliadau Tir Mynydd

4. Cyhoeddais ar 5 Mawrth ein bod wedi hwyluso'r taliadau o dan y cynllun Tir Gofal er mwyn rhoi cymorth i'r gymuned amaethyddol yn y cyfnod anodd hwn. O 8 Mawrth 2001 ymlaen, proseswyd £31.2 miliwn neu 76 y cant o daliadau elfen 1 Tir Mynydd (o gyllideb gyfan o £41 miliwn,a £7.3 miliwn o'r arian hwnnw yn ymrwymiad Lwfans Da-byw Tir Uchel (HLCA) 2000 a dalwyd ym mis Ebrill/Mai 2000). Gwnaethpwyd y taliadau cyntaf i gyfrifon banc ffermwyr yr wythnos diwethaf. Disgwylir y byddwn wedi gwario'r gweddill o £2.5miliwn erbyn diwedd Mawrth.

### Gwerthusiadau GMO ar Raddfa Ffermydd

5. Ar 28 Chwefror, cyhoeddodd Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, leoliadau'r safleoedd prawf ar gyfer Gwerthusiadau ar Raddfa Caeau yn ystod y gwanwyn ar gyfer had rêp a betys. Nid oedd un o'r safleoedd yng Nghymru. Bydd y safleoedd ar gyfer indrawn, sy'n cael ei hau yn ddiweddarach yn y flwyddyn, yn cael eu cyhoeddi nes ymlaen y mis hwn. Mater i'r Pwyllgor Llywio

Gwyddonol annibynnol, sy’n goruwchwylio’r treialon, yw dewis y safleoedd hyn.